**PWYLLGOR:** Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig

**DYDDIAD:** 18fed Tachwedd 2016

**TEITL YR ADRODDIAD**: Adroddiad yr Uned Ddarparu AAA

**GWEITHREDU**: Ystyried yr adroddiad

**CEFNDIR**: Disgrifir gwaith Uned Ddarparu’r Cyd-Bwyllgor AAA

# Adroddiad yr Uned Ddarparu AAA

## 1.0 Gweinyddu Prosesau Asesu ac Adolygu

Mae ychydig o anawsterau wedi bod yn y gwasanaeth hwn eleni. Mae'r Rheolwr Gwasanaeth ar hyn o bryd yn absennol o'i gwaith oherwydd iechyd, ac mae un o'n swyddogion gweinyddol profiadol eraill hefyd wedi bod yn absennol ers tro. Mae hyn wedi achosi rhai anawsterau, ond mae gweddill y staff wedi llwyddo i ysgwyddo peth o'u baich ac mae'r gwasanaeth wedi parhau i gwrdd â'r gofynion syd arno. Mae gennym aelod newydd i'r tîm sydd wedi ymgartrefu'n dda ac yn gwneud gwaith ardderchog.

Mae aelodau o'r tîm wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant mewn technegau Cynllunio'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn, yn rhan o'r paratoad am y ddeddfwriaeth newydd a fydd yn disgwyl i awdurdodau addysg Cymru ddefnyddio'r technegau hyn wrth ystyried Anghenion Dysgu Ychwanegol plant.

## 2.0 Gwasanaeth Athrawon Arbenigol

Mae'r gwasanaeth athrawon arbenigol hefyd wedi mynychu cwrs deuddydd ar dechnegau Cynllunio'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn. Fel swyddogion eraill y Cyd-Bwyllgor, y seicolegwyr addysgol, byddan nhw'n cydweithio efo'n hysgolion ni i hyrwyddo'r defnydd o hyn ac yn sicrhau cysondeb yn y ffordd y cynhelir y cyfarfodydd adolygu. Gwn ei bod eisoes wedi cychwyn ar y gwaith hwn.

Rydym wedi colli un aelod o'r gwasanaeth dysgu plant â nam clyw, sydd bellach wedi cychwyn gweithio mewn sir gyfagos, a rydym yn dymuno pob lwc iddi yn eu swydd newydd.

## 3.0 Gwasanaeth Seicoleg Addysgol

Rydym wedi derbyn aelod ychwanegol i'r tîm, yn dilyn secondiad un o'n uwch seicolegwyr i weithio ar y Strategaeth. Rydym yn gobeithio ei bod hi wedi dechrau ymgartrefu efo ni ac rydym yn sicr yn falch iawn o'i gwasanaeth.

Mae'r tîm hefyd wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant Cynllunio'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn, ac mewn gwirionedd eisoes wedi hyfforddi yn y maes hwn. Rydym wedi cychwyn ar y gwaith yn yr ysgolion. Fel mae'r enw'n awgrymu, mae'r technegau hyn yn ceisio sicrhau bod yr unigolyn dan sylw, sef, wrth gwrs, y plentyn sydd efo Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn cymryd y lle blaenllaw sy'n ddilys iddo/iddi fel canolbwynt y cyfarfod, ac yn cymryd rhan lawn ynddo. Agwedd arall o'r ffordd newydd hwn o gynnal cyfarfodydd fydd sicrhau mwy o fanylder a chysondeb ar y math a'r maint o gymorth ychwanegol mae'r plant yn ei dderbyn.

Rydym wedi parhau i gynnal gwasanaeth cefnogi ysgolion y ddau awdurdod, yn cynnwys ymwneud â phlant unigol, ymgynghori ar faterion eraill ynglŷn ag anghenion addysgol ychwanegol, a chynnal hyfforddiant o fewn ysgolion unigol ar eu cais nhw.

Gwybodaeth 2006-2016

Dyma wybodaeth o waith yr Uned Ddarparu'n cynhyrchu datganiadau dros y 10 mlynedd ddiwethaf

Mae'r nifer o ddatganiadau'n amrywio a dydy hi ddim yn glir bod hyn yn gostwng.

Nifer o ddatganiadau

| | 2006-7 | 2007-8 | 2008-9 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Môn | 34 | 45 | 39 | 45 | 43 | 28 | 15 | 45 | 38 | 58 |
| Gwynedd | 23 | 54 | 61 | 99 | 75 | 69 | 55 | 89 | 37 | 37 |
| cyfanswm | 57 | 99 | 100 | 144 | 118 | 97 | 70 | 134 | 75 | 95 |

Mae'r gwahaniaeth mewn cymhareb rhwng y ddau Awdurdod yn amrywio; roedd cyfnod pan oedd Môn yn isel ond mae Gwynedd yn is dros y ddwy flynedd dddiwethaf.

Datganiadau canran

| | 2006-7 | 2007-8 | 2008-9 | 2008-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Môn | 60% | 45% | 39% | 31% | 36% | 29% | 21% | 34% | 51% | 61% |
| Gwynedd | 40% | 55% | 61% | 69% | 64% | 71% | 79% | 66% | 49% | 39% |

Rydym ni'n cwblhau'r rhan fwyaf o fewn y 26 wythnos statudol, os nad ydych yn ystyried oedi oherwydd disgwyl ymateb gab bobl nad ydynt yn gweithio o fewn Addysg.

O fewn 26 wythnos heb eithriadau

| | 2006-7 | 2007-8 | 2008-9 | 2008-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Môn | 92% | 85% | 100% | 100% | 93% | 100% | 86% | 86% | 100% | 100% |
| Gwynedd | 100% | 90% | 89% | 98% | 98% | 97% | 93% | 96% | 100% | 89% |
| cyfartaledd | Gwynedd | 95% | Môn | 94% | | | | | | |

Rydym yn methu â chwblhau nifer sylweddol tu allan i'r 26 wythnos statudol oherwydd pobl broffesiynol tu allan i Addysg, ac efallai bod hyn yn cynyddu.

O fewn 26 wythnos yn cynnwys eithriadau

| | 2006-7 | 2007-8 | 2008-9 | 2008-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Môn | 71% | 76% | 67% | 44% | 67% | 86% | 87% | 58% | 58% | 60% |
| Gwynedd | 57% | 67% | 70% | 86% | 93% | 88% | 73% | 62% | 59% | 54% |
| cyfartaledd | Gwynedd | 71% | Môn | 67% | | | | | | |